YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MAWRTH, 1896. [RHIF 99

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

GWYBOD A GWELED.

GAN W. C. G.

MAE llawer iawn o arddangosiadau sydd yn y byd yn ddirgelwch, ond y maent yn ddirgelwch agored i'r sawl sydd a llygaid i weled. Gallwn roi dirgelwch dwfn mewn ychydig eiriau, geiriau y gall y plentyn lleiaf eu sillebu. Yn ol fel y byddom, yr ydym yn gwel'd. Yr hyn mae'r plentyn yn sillebu yw, fod yn mhobpeth yr edrychwn arno lawer mwy nag yr edrychodd y llygaid doethaf erioed arno: fod yr hyn mae dyn yn wel'd yn bresennol, yn ymddibynu ar faint mae wedi wel'd yn y gorphenol, ar faint sydd ynddo'n barod.

Ewch gyda phaentiwr i'r caeau. Mae e'n gwel'd goleuni yn y glaswellt, lliwiau yn y cymylau, cysgodau ar y mynydd, na all eich llygad chwi o braidd ei weled, hyd y nod wedi ei nodi allan. "Mr. Turner," ebai cyfaill wrtho un diwrnod, "Mr. Turner, 'alla i ddim gwel'd yn natur y lliwiau y'ch chwi yn rhoi yn eich darluniau." "A! carech pe gallech," meddai'r paentiwr. Ysgrifen'som *ni* erioed gerdd, ond mae cerdd yn crogi ar bob llwyn pan mae bardd yn pasio, a phob heol yn llawn chwareugerddi pan â Shakespeare heibio. Neu, darllenwch un o'r cerddi mawrion gyda bardd; mae ei wyneb yn gwrido, ei lais yn crynu, tra yr y'ch ch'i yn oer ac yn undonol. Wrth aros yn synfyfyriol uwchben y dernyn hwn a'r dernyn arall, synwch nad ydych wedi gweled o'r blaen y prydferthwch sydd yn gynnwysedig ynddynt. Dim ond pum' mlynedd dreuliodd Humboldt yn America, ac fe gymmerodd gyfrolau ar gyfrolau i gyhoeddi yr hyn a welodd. Ychydig yn newydd mae y rhan fwyaf o ddynion yn gael wrth rodio rhwng y coedydd neu

mewn gwibdaith dros y mynydd ; ond darfu i'r un Humboldt, un diwrnod, esgyn i ben y mynydd tanllyd Vesuvius yn nghwmni dau o'i gyfeillion, ac yr oedd y byd yn gyfoethocach mewn gwybodaeth newydd y noson hono mewn canlyniad i un wibdaith fer. Yr oedd *crafad* ar y graig ar y ddol yn ddigon i ddweyd wrth Agassiz fod mynydd o ia wedi tramwy y ffordd hono ganrifoedd meithion yn ol, neu bod *glaciers* yn gorwedd yno unwaith, ac wedi ymwthio ar i waered. I chwi a minau, 'dyw hi ddim ond *crafad* ar y graig. Mae tamaid o sialc yn nwylaw Huxley yn dwyn i fyny ffeithiau, nid rhyw ystraeon, am y gwely rhwyllog ar yr hwn y gorphwys yr *Atlantic cable* y dydd heddyw, ac yn dweyd wrtho sut yr elai bywyd yn y blaen ar yr adeg pan oedd clogwyni Dover yn cael eu ffurfio. Mae holl diriogaeth natur, fel yr ymddengys i wyddoniaeth diweddar, yn rhoi, gyda phob darganfyddiad newydd, fynegiad i'r ddeddf syml, annogaethol—fod dynion yn *gwel'd* yn ol yr hyn *yw* dynion—pob cipdrem yn y gorphenol yn cyfrif i'r gweledigaethau newyddion ydynt yn ymagor o'n blaen. Mae hyd y nod y gipolwg sydyn ar ryw wirionedd mawr, rhyw weledigaeth rhyfeddol, at ddirgelwch yr hon mae'r byd yn sefyll yn fud, yn engraifft o'r ddeddf yma. Yr ydym yn galw y fath gipolwg yn "ysprydoliaeth," yn "athrylith," yn "ddatguddiad." Beth bynag yw, mae y weledigaeth newydd yn dwyn rhyw gyfartaledd i'r hen weledigaeth. "Y meddwl mawr a wel yr *idea* yn y ffaith : y meddwl bach a wel y ffaith yn unig"—os gwel e' hono. Dim ond Newton sydd yn darganfod deddf dysgyrchiant yn syrthiad yr afal aeddfed oddiar y golfen. Mae Mayer yn tynu gwaed o fraich y dyn tost mewn rhyw wlad boeth, ac yn sylwi fod y gwaed o gochi mwy dysglaer nag oedd efe wedi arfer wel'd yn nes i'r gogledd. I Mayer, ac nid i'r miloedd doctoriaid oeddent wedi defnyddio eu *lancet* cyn hyny, yr oedd y cochi hyny yn awgrym i'w osod ef ar y llwybr i gael gafael yn y wybodaeth hono, fod holl nerthoedd yn dal perthynas a'u gilydd—*correlation of forces*—a dyna yw cyflawniad penaf gwyddoniaeth hyd yma yn ystod y ganrif bresennol. Mae Darwin yn cael ei daro gan ffeithiau neillduol yn nosparthiad planhigion yn neheubarth America : ac mae yr un awgrym yma yn ei arwain ef at yr athrawiaeth o ddechreuad naturiol rhywogaeth—a dyna yw cyflawniad arall gwyddor yn y ganrif hon. Rhowch chwi i Cuvier ddant neu asgwrn rhyw greadur ag y mae ei rywogaeth wedi darfod oddiar wyneb y ddaear er's mil o flynyddau, ac fe allasai weithiau ddweyd beth oedd ffurf y creadur : ac mae trigle gweddillion y creadur mewn rhyw graig oesol yn profi fod y weledigaeth yn iawn. Fe ddarfu i Agassiz, meddai'r hanes, *freuddwydio* ei ffordd dairgwaith i'r garreg, ac fe welodd y creadur yn gorwedd yno mewn *fossil*, gyda'r un gwneuthuriad ag a ddygwyd i'r goleu wedi hyny gan ei forthwyl. Fe allasai Cuvier ag Agassiz, Darwin a Mayer, wneyd y pethau hyn : paham lai weledyddion cyffredin gwyddor ? Oblegyd fe all pob dyn weled yn unig mewn cyfartaledd i'r hyn mai wedi weled.

Yr un fath drachefn gyda dyn. Yr ydym yn gweled mewn

dynion yn ol yr hyn ydym, yn gweled ynddynt y possibilrwydd i odidogrwydd neu i ddiraddiad, ag ydym ni wedi cael golwg arno yn ein profiad mewnol. Yr hyn a welwyd gan un dyn a ddysgir ei weled gan bawb. Y gân a glywyd gan un person yn mhethau dystadl bywyd, mae y glust yn tyfu yn mhawb dynion i'w chlywed. Mae gormes yn llechu o hyd, mae troseddau ac anwybodaeth yn flagurog yn ein plith. Er hyny, edrychwch *oddiamgylch*, ac yna edrychwch *'nol*, a gwelwch sut mae yspryd cymdeithas tuag at ei haelodau ieuengaf a thlotaf, a thuag at y dosparthiadau mwyaf dirmygedig, yn newid er gwell. Bydd y cyfnewidiad yn achos: fe fydd hefyd yn ganlyniad gwell tôn foesol ynom ni ein hunain. Yn ol yr hyn ydym, y gwelwn ni. Yr ydym yn gwel'd mwy mewn dynion heddyw am ein bod yn fwy ein hunain. Mae safle foesol dyn yn uwch nag yr arferai fod.

Cymmerwch, er engraifft, *yr ysgol*. Mae yr "addysg newydd" yn cymmeryd yn ganiataol fod y plentyn yn fod ag adenydd a doniau i gyd, ac mai gwaith yr athraw yw, nid gosod gwybodaeth mewn rhyw flwch o feddwl, ond tynu a darbwyllo yr adenydd a'r doniau i dyfu. I'r athraw sy'n gwel'd yn iawn, mae yr ysgol heddyw yn ardd angylion. Drachefn, mae y *carchar* wedi bod yn hir yn ffau, lle y gallasai y mwyaf peryglys gael eu pentyru ma's o olwg cymdeithas: ar gyfer y sawl yr ystyrid eu pawenau yn fwyaf niweidiol, 'doedd dim yn well na'u lladd. Nid darganfyddiad y ganrif bresennol yw, fod ein troseddwyr yn wyr a gwragedd fel ni ein hunain, fod eneidiau a chydwybodau yn myn'd tu ol i'r pyrth a'r barau yna; ond dim ond ar ol canrifoedd o dyfiant mae ein llygaid wedi dyfod i weled y ffaith hono yn ddigon plaen i ni feddwl am garcharau fel *Reform Schools*, a *Reform Schools* fel math o gartrefi cyhoeddus. Heddyw, yr awydd yn y carcharau goreu yw creu dinesydd—rhoi 'nol i gymdeithas ddyn all gynnal ei hunan, all lywodraethu ac all barchu 'i hunan, yn lle y creadur haner anwar aeth mewn. Mae sancteiddrwydd y bod dynol yn cynnyddu yn ein golwg ni; ac yr ydym yn gweled mwy i barchu yn y dynion hyn sy'n tori ar heddwch ein cymdeithas, oblegyd ein bod yn gweled mwy i barchu ynom ein hunain. Yr *ydym* yn rhagor, ac yr ydym yn gweled rhagor. Yr un fath, hefyd, gyda'n hymddygiad tuag at y *gwallgof*, a'r rhai hyny sydd wedi eu geni a'u meddwl o dan gwmwl. Dim ond canrif yn ol yr oedd dynion yn gweled ynddynt fodau na ddylid eu cyfarch yn garedig a rhesymol. Heddyw, yr ydym yn gweled gwyrthiau o adgyfodiad yn cael eu cyflawni gan gyffyrddiad ysgafn o gydymdeimlad ac amynedd dynol. Mae gwallgof-dai ein gwlad wedi myned trwy oruchwyliaeth o gyfnewidiad yn ystod y deng mlynedd diweddaf—i'w gwneyd yn fwy tebyg i gartref yn llawn o gysur a dyddanwch. Meddyliwch am Dr. Howe yn teimlo'i ffordd i enaid carcharedig Laura Bridgman, ac yn cael gafael yn yr enaid hono, ac yn ei dwyn hi allan i gymdeithas ar hyd llwybr yr unig synwyr a feddai—y synwyr o gyffyrddiad ag oedd wedi ei adael ar dor llaw yr eneth anffodus. Nid oedd y

chwilio am, a chael gafael yn Lieut. Greely, pan oedd wedi cael ei gau i fyny mewn ogof o ia tragwyddol ar dueddau y pegwn gogleddol, yn ddim mewn cymhariaeth iddo. Mae ffordd Dr. Howe o ddarganfod yn gysgod o wyddor ac o ddynoliaeth y ganrif bresennol.

Yr un fath mae hi yn ein holl berthynasau a'n gilydd yn holl gyssylltiadau bywyd. Mae cydwybod y genedl yn dechreu dihuno wrth weled y creulonder a ddangosir tuag at hyd y nod creaduriaid mudion—y *bull-baiting*, y *bull-fights*, yr hela cadno, y saethu colomenod, y galanastra a wneir ar y diniwed yn unig er mwyn dyfyrwch—maent yn dyfod yn or-waedlyd i lygaid y bedwareddganrif-ar-bymtheg, ac yn adgas i feddyliau a chalonau y bobl. Hyd y nod yn y creaduriaid yr ydym yn gweled mwy o debygrwydd i ddyn, ac yn eu natur yr ydym yn gweled tir i gymhwyso y rheol euraidd, "gwnewch i ereill fel y dymunech i ereill wneyd i chwithau." Yr ydym yn dyfod i wel'd hyn fel yr ydym ni yn dyfod yn fwy dynol ein hunain.

Y pwnc mawr ar ddechreu y ganrif bresennol oedd y gaethfasnach, ond y mae cyfiawnder, i fesur helaeth, wedi cael ei wneyd o hono. Pwnc mawr y dyddiau hyn yw perthynas y gweithiwr at gyfalaf, a'r cais i ad-drefnu y berthynas hono, a dyma yn ddiamhau fydd cwestiwn mawr y genedl am flynyddoedd meithion y dyfodol. Ond mae y ffaith fod meddyliau goreu y wlad yn ceisio dyfalu uwchben y cwestiwn, ac mewn cydymdeimlad llawn a'r gweithiwr tlawd, yn dangos pa mor wahanol yw ein syniad ni o'r hyn a elwir y "dosparthiadau is" mewn cymdeithas, i'r syniad sydd wedi ffynu am ganrifoedd lawer. Rwy'n meddwl na fu erioed gymmaint o obaith am ddyfodol dyn ar y ddaear, neu oddiar y ddaear, ddim cymmaint o dynerwch calon, a llaw o gymhorth i'r rhai hyny sy'n ymddangos isaf lawr a bellaf oddiwrth eu brodyr.

(I'w barhau.)

Y NANT.

Gan y Parch. William Thomas, M.A. (Gwilym Marles), 1855.

Nant! b'le yr äi,
Dan rymial dy fyrdwn i'r gwynt,
A murmur yn erbyn y cerryg ar hynt,
  Fel pe ar fai am attal dy ffrwd?
Dechreuaist dy yrfa yn ystlys y graig,
Marchogi ar raian a thywod yr aig,
  Dy ewyn, chwys brwd.
Cynnydda dy nerth, lle'th redfa yn serth;
Gweryri yn groch pan lesteirier dy lif
Gan elltydd a chreigiau a'th feiddiant yn hyf

Lle gored a deflir o'th flaen,
Llamneidi ei grib yn afrywiog dy raen
I'r tywyll ddyfnderoedd ; dy ru rwyga'r nefoedd,
Dy ana'l gymmylau o niwl a gwlith daen.

Carlami i uno gorymdaith yr afon
Mewn rhwysgedd a chwilia wersylloedd yr eigion,
Gan chwythu yn udgyrn rhaiadrau
A chwiban yn ngwreiddiau y coediog geulanau,
Y bryniau amgylchol, lle sigla y gawnen,
Y rhedyn a'r grug ar eu copa fel pluen,
Amneidiant archebion i'r drystiog orymdaith
Ysguba waelodion anhygyrch a diffaith.

Nant! chwyddi gronfa ddofn y cefnfor,
Er nad wyt groew fel pan yn ein goror;
Yn nghawg y weilgi taflwyd iti halen
Na'th edy nes dy buro yn nghrombil daearen;
Ond pan lifi trwy ein cymydd, wyt i'r genau'n beraidd iawn ;
Af â 'nghwpan y boreuddydd, af â 'nghwpan y prydnawn,
I gael dracht o'th bistyll llawn.

Gwell genyf am danat nâ'r afon fodrwya fel sarff hyd y dolau,
Ti lifi yn nghesail mynyddau a'r grug yn cusanu dy grychiau;
Yspyddaid, ac eithin melynion, afallen â'i thwffau tewfrithion
O flodau; y ddraenen ddu, faglog, a bynga fel dan gnu eiraog,
Addurnant dy lenydd. Yr helyg a blygant i wrando dy fiwsig;
Ei dail a ysgydwa y dderwen, ei brigau a chwyfia y fedwen,
I ganmol a moli alawon cymmysglyd dy ffrydiau â'u hymson.

Dy bysg sy ddantaith ar fy mwrdd gwledig,
A'u dal ddyfyrwaith pan dro'f y cerryg,
Pan deimla 'nwylaw y geulan frwynog
Rydd loches ddystaw i'r brithyll ofnog.

Yn iach, gu nant, hen nant fy mebyd !
Boed loew'th lif, boed groew'th ffrydiau,
Boed lon dy lais—mae'th rymial-fiwsig hyfryd,
Dy furmur suad pêr i fyrdd gofidiau.
Boed wyrdd y lleinau trwy y rhai y rhedi
Ac îr y coed o'th ddeutu. Uwchben dy wely
Ymffurfied cangen lithrig y gerdinen,
A gwinwydd gwyllt yn plethu gylch pob colfen,
Yn fwa tlws: ail enfys y ffurfafen
Pan ar y dorch o wlaw llewyrcha heulwen.

Y gwyllt friallu melyn weno
Ar dy ffrwd wrth fyned heibio ;

Toraeth fraf o lusi melus wisgo ambell geulan fawnog
Lleded y mieri dyrus o fwyar gnwd ar fron y pwll tawedog.
Yr asgellog dylwyth gathlont ar bob brigyn ystwyth;
Y dryw yswitio, y pinc darawo, ei nodau clochaidd;
Y fronfraith a'r fwyalchen, dwy flaenor y côr addien,
O frig y llwyni chwyddont sain gorfoledd.
Cafwyf finau'r fraint o eistedd
Yn mreichiau iorwglyd hen dderwen
Fynweso ddwy ochr dy ddyfroedd,
Lle caf felus ymgom â Natur a'r Awen,
A Chariad a'r Nefoedd.

EIN DYLEDSWYDD TUAG AT YR ARMENIAID.

Er's dros flwyddyn mae'r bobl ferthyredig hyn wedi bod yn crio am amddiffyniad rhag creulonderau'r awdurdodau Tyrcaidd a'r Kurdiaid. Hyd yma mae eu cri wedi bod yn ofer: mae ein Llywodraethau yn glust fyddar i'w herfyniadau truenus, ac nid oes argoel fod ymwared i gael ei estyn iddynt hyd nes y bydd i deimlad y gwledydd gael ei gyffroi gan yr hanesion enbyd a thorcalonus sydd yn parhau i'n cyrhaedd oddiwrth y trueiniaid anffodus. Gwir fod llawer yn gwneyd eu rhan i ddwyn y mater i sylw; ond hyd yma nid ydys wedi gweled arwydd fod y fath deimlad yn cael ei gyffroi yn mynwesau Cristnogion trwy'r gwledydd ag a fydd yn peri i'r awdurdodau symmud yn y mater.

Mae'r Armeniaid yn genedl henafol iawn. Am dros 1600 o flynyddau maent wedi parhau i fyw ar y tu dwyreiniol i Fynydd yr Ararat; ac er y canrifoedd cyntaf maent wedi parhau yn Gristnogion er gwaethaf yr erlidigaethau lawer a chreulawn sydd wedi disgyn i'w rhan. O'r holl fân genedloedd Dwyreiniol a fabwysiadasant y Grefydd Gristionogol ar y cyntaf, maent hwy yn un o'r ychydig na throisant eu cefn arni. Yn byw yn eu plith mae cenedl arall, os gellir eu galw yn genedl hefyd, sef y Kurdiaid, gan y rhai y maent wedi cael eu trin, er pan y daethant i gyffyrddiad â'u gilydd gyntaf, fel y trinir y defaid gan y blaidd. Mae'r ddau air, "yspeilio a lladd," yn gosod allan yn gywir y driniaeth y maent wedi dderbyn oddiar law y dynion hyn. Mae yr hyn a gymmer le heddyw yn Armenia wedi bod yn cymmeryd lle trwy'r canrifoedd. Er ys dros 500 o flynyddau, bellach, mae'r ddwy genedl hyn wedi bod dan lywodraeth y Twrc, os gellir galw llywodraeth ar y fath beth hefyd; ac oddiar hyn mae'r Armeniaid wedi gorfod dyoddef erlidigaeth y Twrc yn ychwanegol at eiddo'r Kurdiaid, oblegyd prif amcan y Twrc, yn mha le bynag y mae ei lywodraeth yn cyrhaedd, yw gorfodi y Cristnogion i dderbyn Mahometaniaeth, neu ynte eu dinystrio a llanw eu lle gan Fahometaniaid. Pan aeth cenadon oddiwrth y Sultan i geisio troi

yr Armeniaid, methasant yn llwyr yn eu hymdrech, ac hyd y dydd heddyw maent wedi bod yn ffyddlon i'r Gristnogaeth a broffesant er gwaethaf pob ymdrech i'w troi; ac y mae eu dyoddefiadau parhaus yn herwydd eu ffyddlondeb i Gristnogaeth, a'u hymlyniad wrthi er eu gwaethaf oll, yn haeddu eu cymharu ag eiddo merthyron Ewrop yn amser y Diwygiad Protestanaidd. Maent yn genedl hynod sobr, diwyd, cynnil, ac heddychol. Gosodant bwys neillduol ar burdeb y bywyd teuluaidd. Maent yn ffyddlon i'w heglwys ac i'w crefydd o flaen pob peth, ac ni chyfrifant fywyd yn ddim os y rhaid iddynt ei gadw trwy anffyddlondeb i'w crefydd, neu drwy ymostwng i gyflawni gweithredoedd a waherddir gan eu crefydd. Bu'r oll o Armenia unwaith o fewn y Llywodraeth Dyrcaidd; ond yn mhen amser aeth y rhan ddwyreiniol i feddiant Rwssia. Er nad oedd Llywodraeth Rwssia—ac nid yw heddyw—yn bobpeth ag y gellir ei ddymuno, yr oedd yn fil gwell fel yr oedd nag eiddo'r Twrc, ac am y tro cyntaf cafodd trigolion y rhan hon o Armenia fwynhau tawelwch ac amddiffyniad i'w heiddo a'u bywyd. Yn ystod y flwyddyn sydd wedi myned heibio mae miloedd wedi dianc yn mhob cyflwr dros y llinell derfyn rhwng Armenia yn Rwssia ac Armenia yn Twrci, er cael y dyogelwch a'r amddiffyniad na chelent dan Lywodraeth y Twrc.

O'r braidd y gellir dweyd fod dim o'r hyn a elwir ac a adnabyddir genym ni fel Llywodraeth i'w gael yn un rhan o diriogaethau Twrci. Mae'r Cristionogion, mewn effaith, yn gaethion; ac ni weinircyfiawnder ond i ganlynwyr Mahomed. Nid ystyriant y Cristnogion yn deilwng o un chwareu teg. Gorfodir hwy i dalu llawer mwy na'r gyfran gyfiawn o drethi; ac yn ol tystiolaeth tystion ag y gellir ymddybynu arnynt, ni faidd yr Armeniaid wrthod dim a ofynir oddiwrthynt gan y swyddogion Tyrcaidd, hyd y nod wrthod rhoddi eu gwragedd a'u merched i gael eu treisio a'u camdrin yn mhob modd cywilyddus. A byth er y flwyddyn 1878 mae'r gwaith o ddifodi'r Cristnogion Armenaidd wedi cael ei gario yn mlaen dan nawdd ac annogaeth uniongyrchol y Sultan.

Pa gyssylltiad sydd rhyngom a hyn oll? Ac yn mha fodd y mae ein hawl, ac hyd y nod ein dyledswydd ni, yn dod i fewn i roddi terfyn ar yr ysgelerderau hyn? Oni b'ai am Loegr, ni fuasai Llywodraeth Twrci ar gael heddyw. Yn 1853 ac yn 1878 achubwyd y Sultan gan Loegr rhag y dinystr oedd yn ei fygwth. Ni wnaeth Lloegr hyn, mae'n wir, heb gael addewidion gan y Sultan y byddai yn dwyn diwygiadau i fewn; ond pa ymddiriedaeth a ellir ei roi ar addewidion y Sultan sydd wybyddus i bawb erbyn heddyw. Etto, pan y mae Lloegr yn gweled nad yw'r addewidion yn cael eu cyflawni, y mae ganddi hawl, ac y mae dyledswydd yn galw arni, i'w orfodi i'w cario allan. Hyd y flwyddyn 1856 amddiffynid y Cristnogion Armenaidd gan Rwssia; ond yn y flwyddyn hono amddifadwyd Rwssia o'i hawl i'w hamddiffyn, a chymmerodd Lloegr, mewn enw, y ddyledswydd arni ei hun yn ei lle, mewn undeb a'r gwledydd Ewropeaidd ereill. Yn y flwyddyn 1856 mynodd y gwledydd hyn addewid oddiwrth y Sultan y byddai yn diwygio yn ei ddull o lywodraethu'r

Armeniaid, a chydsyniodd yntau. Mae pawb yn gwybod erbyn hyn mor ddiwerth oedd ei addewidion. Ail-gadarnhawyd ein hawl i ymhyryd yn yr achos hwn drachefn yn 1878. Felly, gwelir pa mor gyfrifol yw Lloegr am y dygwyddiadau cyffrous a gymmerant le yn y dyddiau hyn yn Armenia.

Mae y Kurdiaid yn lladd yr Armeniaid er meddiannu eu heiddo; ond y mae swyddogion gwladol y Twrc yn eu lladd er mwyn eu difodi o'r wlad. Dywedir nas gall y nifer sydd wedi eu dyfetha eisoes fod lawer yn fyr o chwarter miliwn. Mae'r desgrifiadau o'r dulliau y difodir hwynt yn dorcalonus i'r eithaf. Dyma un enghraifft. Mewn un gymmydogaeth lle yr anfonwyd milwyr i gynnorthwyo'r Kurdiaid, hwy a aethant yno gan broffesu eu bod wedi cael eu hanfon i'w hamddiffyn rhag eu gelynion. Gan fod y trigolion yn eu credu, cymmerasant hwy i fewn i'w tai, a llettyasant hwy; ac yn nghanol un o'r nosweithiau dylynol, pan oedd y trigolion oll yn huno yn dawel yn eu tai, heb feddwl fod un ddichell na brad yn mynwes eu hamddiffynwyr proffesedig, cawsant oll eu dinystrio yn gyffredinol yn y modd mwyaf barbaraidd—yn wyr, gwragedd, a phlant. Dyma un enghraifft arall. Yn ystod y gyflafan yn Trebizond, yr oedd Armeniad yn dod allan o faelfa, a chyfarfu a thyrfa o'r Kurdiaid a'r milwyr. Daliwyd a thaflwyd ef i lawr. Gofynodd am drugaredd, ac addawsant ei roddi iddo. Ond ymddengys mai mewn cellwair yr addawsent hyn, o herwydd yn fuan cylymasant ei draed, a thorasant ei law ymaith; yn fuan gwnaethant yr un peth a'r llaw arall, ac amddifadasant ef hefyd o'i glustiau, ei ddannedd, ei dafod, a'i lygaid. Mae y desgrifiad hwn yn eithafol o druenus, braidd yn rhy druenus i gredu ei fod yn wir. Er hyny, nid yw ond enghraifft wirioneddol o'r hyn a gymmer le yn feunyddiol. Tebyg na ddeuir i wybod byth am hanner y galanasdra a wneir yn mhob rhan o'r wlad; ond y mae'r hyn sydd yn wybyddus yn awr yn ddigon, neu dylai fod yn ddigon, i gyffroi holl Ewrop i roddi terfyn bythol ar y creulonderau hyn trwy symmud oddiar ei orsedd yr hyn sydd, yn y lle cyntaf, yn gyfrifol am danynt, sef y Sultan. Dywedaf yn y lle cyntaf, o herwydd mae cyfrifoldeb yn gorphwys ar Loegr hefyd.

Mae ger fy mron pan yn ysgrifenu'r llinellau hyn lyfryn bychan yn desgrifio'r creulonderau at ba rai y cyfeiriwyd eisoes, o'r hwn, gyda llaw, yr wyf wedi cael y ffeithiau yn y sylwadau blaenorol. Wrth ei ddarllen teimlaf rhyw iasau oer yn fy meddiannu wrth feddwl fod pobl dawel, heddychol, pur eu moesoldeb, a diwyd, yn gorfod dyoddef y fath greulonderau annesgrifiadol, tra mae gwledydd Crist'nogol Ewrop yn aros yn fud uwchben eu dyoddefiadau, ac heb wneyd dim, neu o leiaf, heb wneyd dim yn effeithiol, i atal llaw'r erlidiwr a'r dinystriwr sydd yn gyfrifol am damynt. Beth sydd eisiau ei wneyd? Nid oes un arwydd fod ein Llywodraeth yn symmud yn y mater. A dyledswydd arbenig pob gwir Gristion yn yr ynys yw gwneyd ei ran i ddeffroi cydwybod y cyhoedd, fel y gellir gwneyd i'r Llywodraeth i deimlo na oddefir i'r difaterwch sydd wedi ei ddangos hyd yma i barhau yn hwy. Nid mater plaid

yw hyn. Llywodraeth Doriaidd sydd mewn grym yn awr, mae'n wir, ond ni chredaf y byddai'r sefyllfa yn un mymryn yn well pe bai'r blaid wrthwynebol mewn swydd yn ei lle. Gan nad beth am hyn, mae'r trueniaid yn Armenia a'u llygaid tuag atom ni, ac y mae eu gobaith am ymwared arnom ni. A adewir iddynt i gael eu siomi? Na sonier am Grist'nogaeth na chrefydd byth mwy os nad yw yn ddigon cryf i beri i ni godi ein llais dros yr Armeniaid anffodus yn eu cyfwng truenus presennol.

A.B.

HEN LYTHYRAU.

Mr. Gol.,—Os bernwch y dyfyniadau canlynol a gopïais o'r gwreiddiol, y rhai a welir yn *Free Library*, Caerdydd, o ddyddordeb digonol i ymddangos yn Yr Ymofynydd, y maent at eich gwasanaeth. Y mae'r personau yn adnabyddus ddigon i lenorion Cymreig (cyfieithad):—

Y *Parch. Theophilus Jones, Brecon, at y Parch. Edward Davies* (*awdwr y "Mythology of the Druids."*)

Dyddiedig Mawrth 11, 1804.

"Yr wyf yn ofni eich bod wedi eich camarwain gan Owen o barthed 'Coelbren y Beirdd.' Yr wyf yn cyfeiliorni yn fawr yn fy marn os nad Ned Williams ac yntau ddarfu ddyfeisio'r llythyrenau; ac yr oedd ymddygiad Ned Ynfyd yn *Assizes* diweddaf Caerdydd, pan glywodd eich bod wedi gosod y llythyrenau hyny yn eich llyfr, yn fy argyhoeddi ei fod yn ofni cael ei ddal. Ni chymerai arno ei fod wedi eu holrhain yn mhellach yn ol nag amser Sion Bradford, oddi eithr mewn rhyw gyfeiriadau tywyll, megys 'stave in singing,' 'writing a good stick,' &c. Ond nid yw hyny mewn cymhariaeth i'r amser sydd wedi diflanu oddiar y buont mewn arferiad ond megys munyd mewn 24 awr. Y mae Owen yn ddiamhen yn ddysgedig ac y mae gan Williams fath o dalent penchwiban, ond *system-mongers* a *system-makers* gredaf fi yw'r ddau.

"Y mae pen Owen druan wedi troi mewn perthynas i'r milflwyddiant ac mae rhyw 'slip shod sybil' o'r enw Johanna Southcote yn ei lusgo i'r storm a'r dymhestl, y rhai medd efe wrthyf ydynt i ddechreu yn yr ynys hon yn ystod haf 1807, ar yr hwn amser, yn ol y rhybudd ffurfiol a difrifol a rydd imi, y bydd adferiad pob peth i gymmeryd lle, a'r diafol a fydd yn fwch diangol i'r holl gredinwyr."

Theophilus Jones, 20 *Mawrth* 1806.

"Yr wyf wedi cael fy moddloni yn fawr eich bod wedi darganfod a dinoethi twyll a dichell Ned Williams, y rhai a gymmerwyd i fyny mewn rhan o ddewisiad, ac mewn rhan trwy gytundeb ag Owen, ond yr ydych mewn un rhan o'ch llyfr wedi rhoddi coel i'w fwmeriaeth trwy ddyfynu Owen dros y cleddyf diweiniedig wedi ei osod wrth yr orsedd. Coeliwch fi, nad oes gan y *monkey tricks* a ddangoswyd ar Fryn y Brialli gan Owen ac ereill ddim mwy o sail na chysgod o hynafiaeth nag a berthyn i Gadair Morganwg yr hon y sonia Williams am dani."

THEOPHILUS JONES, *Mehefin* 1807.

D. J. Rees at ei frawd y Parch. W. J. Rees, Casgob.

27 Ebrill 1824.

"Y mae araeth ardderchog yr anrhydeddus a'r hybarch Esgob Ty Ddewi mewn amddiffyniad o Gristionogaeth trwy wrthwynebu y Mesur Priodi Undodaidd (Uniterian [sic] Marriage Bill) wedi ei chyfieithu a'i chyhoeddi yn "Seren Gomer" am y mis hwn, ac y mae'n deilwng o'r cylchrediad helaethaf. Yr wyf yn gobeithio na wnaiff y "Gwyliedydd" ei adael allan. Mae'r ymosodiad clodfawr (noble stand) a wna'r esgob bob amser yn erbyn y cymmeriadau adgas yma, yr Undodiaid (Uniterians!) yn ganmoladwy iawn, ac fe'i cedwir mewn cof yn hir gan bob gwir garwyr eu gwlad a'u crefydd."

D. J. Rees at ei frawd o Gasgob.

Ebrill 1825.

"Y mae'r hen Iolo etto yn fyw, er yn wanaidd iawn. Y mae Taliesin yn ysgrifenu ei fod yn gobeithio dwyn allan y "Cyfrinach," yr haf hwn. Yr wyf finau yn gobeithio hyny hefyd. Y mae yn bresennol yn ddiwyd yn ysgrifenu Hanes Merthyr Tydfil, yr hyn oedd a'r hyn yw."

Yn y llythyr hwn rhoddir math o bensgrif tebyg i hyn:—

"A Pawl a bregethodd un y van
hyn flwydd AHAD ZXVIII
AG ELIM AP OWEN GOCH
a LAddwyd AG GAddwyd un
man OAC of PREGthy GRIST
1604."

O.Y.—Y mae ugeiniau o hen lythyrau gwerthfawr a ddyddorol yn Llyfrgell Rydd, Caerdydd.—T.C.U.

ERFYNIAD AM GYNNORTHWY.

'Rwy'n teimlo fi'n neshau
At yr Iorddonen ddu:
Fy enaid gwan sydd yn llesghau
Yn swn ei dyfroedd hi;
Mae ofn ac arswyd dan fy mron
Wrth feddwl fod rhaid croesi hon.

Am nerth i'm dal i'r lan
'Rwy'n erfyn, Nefol Dad,
Am gael rhyw oleu—adlyw gwan,
O fryniau'r Nefol Wlad;
Fel na fo myn'd trwy'r adwy hon
Yn peri arswyd dan fy mron.

Am ffydd yr Iesu'n rhan,
Am wared ar fy nghwyn;
Gwasgarer y tywyllwch ban
Gan ei efengyl fwyn;
Fel hyn, nid ofnaf ddaw i'm rhan,
Yn gaerog bydd fy enaid gwan.

Lampeter. L. D. Jones.

TY YR ARGLWYDDI.

DIWYGIAD SENEDDOL.

(Parhad.)

Mr. Gol.,—Gwir flin genyf orfod ymddiheuro yn herwydd yr annghyssondeb yn nglyn â'r erthyglau hyn; ond amgylchiadau nad oes genyf un llywodraeth arnynt yw yr achos gwirioneddol. Os wyf yn cofio yn iawn, ymhyriadau Ty yr Arglwyddi â mesur diwygiadol 1831 fu dan sylw ddiweddaf. Proffwydid llawer iawn o bethau dymunol am gyflwr y wlad dan yr oruchwiliaeth newydd, ac er na ellir dweyd fod y proffwydoliaethau i gyd wedi eu sylweddoli, cydnebydd y rhan fwyaf erbyn heddyw ddarfod i'r rhyddfreiniad ddygwyd oddiamgylch gan fesur 1831 esgor ar gyfnod newydd yn hanes y wlad, a'n bod fel cenedl wedi rhoi un cam pwysig arall ar lwybr cynnydd a blaenfynediad. Yr oedd mesur 1831 yn fesur Radicalaidd, ac yn llawn cymmaint ag y gallasai y wlad ei lyncu ar y pryd, ond yn ngoleuni ei hanes dylynol, hyd at y presennol o ran hyny, mor ofer ydoedd y dybiaeth y buasai darpariadau y

mesur uchod ynddynt eu hunain yn sicrhau amddiffyniad hollol i'w ddeiliaid i roi eu llais yn rhydd a diymhyriad mewn etholiadau Seneddol. Yn y modd y mae un angen wedi ei chyflenwi yn esgor ar angenion ereill, felly hefyd y mae caniatau un rhagorfraint newydd yn esgor ar lygredigaethau newyddion. Wedi gwneyd mesur yn ddeddf, awd i ymhyriad â rhyddid y pleidleiswyr. Achlysurodd hyn y waedd am y tugel *(ballot)*. Cancr arall a gloddiai yn ddwfn dan sylfeini y Ddeddf Ddiwygiadol ydoedd llwgr wobrwyaeth *(bribery)*. Yr ydym yn awr wedi enwi y ddau beth pwysig yn hanes y wlad o 1832 hyd 1867, yn nglyn a'r cyfryw y bu brwydrau poethion. Ceisiai y blaid Rhyddfrydig â'i holl enaid i ladd llwgr wobrwyaeth, a rhoi bywyd i'r *ballot*, tra o'r tu arall, gwnai y blaid Doriaidd, yn cael ei hysprydoli gan y pendefigion, ei goreu i gadw llwgr wobrwyaeth yn fyw, a gofalu na ddoi y *ballot* i weithrediad. Er mwyn rhoddi cipolwg o'r eithafion i'r rhai y cerid llwgr wobrwyaeth yn mlaen, ni a roddwn un enghraifft, sef Bwrdeisdref Stafford. Mewn deng mlynedd, profid fod y draul i ddwyn yn mlaen, neu gario allan, bump etholiad wedi bod yn £36,582, tra nad oedd yr etholwyr yn rhifo dros 1270, ac o'r cyfryw na ddaethai unwaith dros 1100 i'r *poll*. Dyma draul o dros dair punt y flwyddyn i bob pleidleisiwr ar restr yr etholwyr am ddeng mlynedd yn olynol. Cwynai Ty y Cyffredin yn wylofus yn erbyn y camwedd aruthrol hwn, ac yn 1836 ni a'i cawn ef yn darparu mesur i ddifreinio y fwrdeisdref. Ond ni chafodd gydymdeimlad y pendefigion. Protestiai Arglwydd Ashburton yn erbyn yr egwyddor y dylasid difreinio unrhyw etholaeth am yr hyn a eilw y Sais yn *treating*, sef rhoi rhoddion i ddynion yn awr ac yn y man am bleidleisiau. Fel canlyniad, taflwyd y mesur allan gyda mwyafrif o 55 yn erbyn 4. Ddeuddeng mlynedd yn ddiweddarach, gwnaeth Ty y Cyffredin ymdrech rhagorol i ddiwreiddio y llygredd angerddol a anurddai lawer o'r etholaethau. Danfonodd fesur i fyny i'r Ty Uchaf ag oedd yn cynnwys awdurdod i ethol pwyllgor neillduol *(special commission)* i wneyd ymchwiliad i'r llygredigaethau y cwynid o'u herwydd gan y Ty Isaf; ond yn ngwyneb na chyrhaeddodd y mesur uchod y Ty Uchaf cyn y 24ain o Awst, 1848, penderfynodd eu harglwyddiaethau ei daflu allan, er na thorodd y Senedd i fyny cyn Medi o'r un flwyddyn. Y flwyddyn ganlynol, sef 1849, danfonwyd mesur arall i fyny yn dal perthynas uniongyrchol â llwgr wobrwyaeth a'i ddifodiad. Cyrhaeddodd y mesur hwn y Ty Uchaf yn hynod o brydlon. Taflwyd y mesur hwn allan etto mor ddiseremoni ag un o'i berthynasau, ond y mae'n wir nid ar y plê ei fod yn anmhrydlon, eithr ei fod yn cynnwys egwyddor angenfilaidd, sef annghymwyso dyn a dynghedid gan bwyllgor etholiadol, yn euog o lwgr wobrwyaeth, i gael ei enw mwyach ar daflen yr etholwyr. Dyma'r modd, mae yn debyg, y mae Ty yr Arglwyddi wedi gwneyd ei oreu i sicrhau purdeb etholiadol!

Enghraifft nodedig arall o barch dilys y pendefigion tuag at ddiwygiad Seneddol yw eu triniaeth o'r *ballot*. Wedi hir ddadleu,

llwyddodd dyn o'r enw Berkeley rywbryd tua 1842 neu 1843 i gael gan Dy y Cyffredin i ymrwymo, trwy benderfyniad, i egwyddor y tugel. Y cyfryw ydoedd cynddaredd yr Arglwyddi yn erbyn y *ballot*, fel na wnaeth Ty y Cyffredin un osgo at ddim yn swyddogol yn ei chylch am yn agos i ddeng mlynedd ar hugain wedi amser y penderfyniad uchod. Yn 1871, fodd bynag, casglodd ei nerthoedd yn nghyd, a danfonodd fesur i fyny i Dy yr Arglwyddi yn sicrhau pleidleisio drwy y tugel mewn etholiadau Seneddol. Dangosodd yr Arglwyddi y drws iddo gyda mwyafrif o 97 yn erbyn 48, neu ddau yn mhen un. Yn 1872, cynnaliodd y wlad gyfres o gyfarfodydd yn gwrthdystio yn erbyn ymddygiad yr Arglwyddi tuag at y *ballot*. Galluogodd hyn Dy y Cyffredin i anfon yr un mesur i fyny yr ail waith, a chawn y Ty Uchaf yn ail ddarllen y mesur gyda mwyafrif o 88 yn erbyn 58. Yn y pwyllgor ar y trydydd ddarllenniad, pa fodd bynag, gwnaethant bleidleisio dirgelaidd yn ddewisol (*optional*), ac felly gwnawd y tugel yn ddiwerth. Gwrthwynebodd Ty y Cyffredin y cyfnewidiad uchod yn ddiymdroi. Llaesodd yr Arglwyddi eu dwylaw, galwasant yn ól y bleidlais o'u heiddo a wnai y mesur yn ddewisol, a chaniatawyd i'r tugel ddyfod yn ddeddf. Ai o barch i'r egwyddor y gwnaethant hyny? Os felly, paham y gwrthwynebasant yr unrhyw ddarpariaeth yn etholiadau yr Ysgolion Byrddol? Yn 1867, ymgymmerodd Ty y Cyffredin â helaethu terfynau deddf ddiwygiadol 1832. Gweinyddiaeth Doriaidd Arglwydd Derby ydoedd yn gyfrifol am y cyfnewidiad, ac yr ydym yn cael ddarfod i'r Arglwyddi y tro hwn ymddwyn yn hynod o gymmodlawn a boneddigaidd. Barned y darllenydd paham. Y cyfnewidiad nesaf a wnawd yn yr etholfraint ydoedd yn 1884 gan weinyddiaeth Mr. Gladstone. Darparai tua dwy filiwn o ychwanegiad at yr ethol-restr flaenorol. Datganodd y Ty Uchaf ei gydymdeimlad â'r mesur drwy ei gicio dros y drws, ar y cyhuddiad nad oedd un trefniant yn nglyn ag ail-ddosparthiad seddau. Appeliwyd at y wlad yn ddioed. Cafwyd cyfarfodydd brwdfrydig trwy y wlad yn gyffredinol o blaid y Llywodraeth. Fel canlyniad, cynnaliwyd Eisteddiad Hydrefol i ail-basio y mesur yn Nhy y Cyffredin; ac, i derfynu yr erthygl hir hon, cyrhaeddodd Mr. Gladstone ei amcan yn anrhydeddus, er holl ymdrechion a dichellion ystrywgar y pendefigion i'r gwrthwyneb.

GWERINWR.

ADNODAU HYNOD.

Y NOS Sabboth diweddaf yn y flwyddyn 1895, caed pregeth wir ymarferol yn un o gapelau y Trefnyddion, a saif nid yn neppell o Gaernarfon. Swm y bregeth oedd, dysgu sut i fyw yn onest, yn eirwir, sobr, a charedigol. Hawdd oedd casglu nad yr hyn a ystyrir yn ffydd a gobaith sydd i gael y lle penaf a blaenaf yn y

meddwl, ond y penaf, sef cariad—"y mwyaf o'r tri." Ymddangosai y pregethwr hwn yn rhydd oddiwrth yr egwyddorion sefydledig, yn rhydd oddiwrth gyndynrwydd *dogmas*, a sefydlwyd o ddyddiau Cystenyn Fawr, gan Esgobion Eglwysi Rhufain a Lloegr, yn rhydd oddiwrth y monachod—oddiwrth Luther, Calvin, a Harri viii. Yr hwn a sefydwyd gan y dynion uchod a'u tras, a dderbyniwyd heb feirniadaeth na rheswm gan y gwahanol enwadau crefyddol sydd yn llenwi Ewrop a'r Amerig. Teimlaf yn ddiolchgar i'r gwr hwn am ei onestrwydd a'i wroldeb. Aed yn mlaen; y mae iddo ei wobr. Rhaid iddo wrth benderfyniad, o herwydd mae y Gogledd, ac yn neillduol Sir Gaernarfon, yn ymfoddloni ar hen sefydliadau, y fath nad oes un rheswm drostynt, na hanesiaeth gywir o'u plaid. Adwaenaf luaws, a diau genyf fod llawer nad adwaenaf, o bregethwyr yn gweled fod tymhor y *dogmas* yn neshau at y terfyn. Fel y daw rheswm a beirniadaeth deg yn mlaen, pan y daw dynion i *feddwl* ac nid i gredu, ffy yr hen gredoau fel yr us o flaen y gwynt; ânt i ffordd y bwganod a'r tylwyth teg a welid mor aml gan' mlynedd yn ol.

Fel pob dyn, creadur amgylchiadau yw y pregethwr. Rhaid iddo wrth ymborth a dillad, ac nid oes gan luaws ond pregethu tuag at eu cynnaliaeth; ond sut na welai rhai o bregethwyr y Gogledd nas gall y wlad byth lwyddo yn gymdeithasol heb arweinwyr: arweinwyr cymdeithas ydynt. Ond paham na cha y wlad bregethau rhesymol? Y ddamcaniaeth uchaf yw yr hyn a gesglir oddiwrth effaith ac achos, neu achos ac effaith. Wele yr effeithiau wrth y miliynau: y cread—y pethau a welir; dangosir mawredd anfeidrol yn yr oll. Sut na addefir mai *gweithredoedd* Duw sydd Fibl, a'r unig Fibl, ac nid y Vedas, y Coran, na llyfr awdurdodedig Iago I., a thraddodiadau y *tadau*.

Ond i ddod yn nes at y testyn, cyfeiriodd y pregethwr dan sylw at ranau o'r bregeth ar y mynydd. Rhoddodd y gorchymyn, "Cerwch eich gelynion," a dywedodd na welodd efe neb erioed yn cyflawni y gorchymyn hwna, ac nid oedd yn dysgwyl gweled hyny byth. Go bell onite? Ni fynwn byth ddial ar elyn, pe gwyddwn am un, ond dengys natur nad yw yn gofyn i mi ei garu; byddai yn anogaeth iddo barhau yn elyn; ac nis gallaf *fwy* na *charu* cyfaill.

Wrth dreio meddwl am y gorchymyn hwn, cofiais am adnod lle y gwelir i Grist orchymyn dwyn ei elynion ger ei fron, a'u lladd (Luc xix. 27). Gallwn gasglu wrth hyn y dysgwylir i ddyn fod yn well na Duw. Yn yr un llyfr xxii. 36, ceir geiriau yn gorchymyn gwerthu y wisg er mwyn cael arian i brynu cleddyfau, etto yn y bregeth ar y mynydd (Matt. x. 39), ceir a ganlyn: "Eithr yr wyf yn dywedyd i chwi, na wrthwynebwch ddrwg, ond pwy bynag a'th darawo ar y rudd ddehau, tro y llall iddo hefyd," &c. Yn adnod 44 o'r un bennod, pan yn anfon ei ddysgyblion i bregethu yr Efengyl, gorchymynodd iddynt ysgwyd y llwch oddiwrth eu traed yn y ddinas a wrthodai roddi derbyniad iddynt. Drachefn iv. 11, 12, o Efengyl Marc, ceir a ganlyn: "I chwi y rhoddwyd gwybod

dirgelwch teyrnas Dduw! eithr i'r rhai sydd allan, ar ddammegion y gwneir pob peth: fel yn gweled y gwelant ac ni chanfyddant, ac yn clywed y clywant ac ni ddeallant, *rhag iddynt* ddychwelyd a *maddeu iddynt eu pechodau.*" Mae'n hyspys ddigon i ddarllenwyr y Testament Newydd i Grist gyhoeddi fod ei Dad yn fwy nag Ef: "Y mae fy Nhad yn fwy na mi." Onid yw yn rhyfedd na fyn y Cristionogion ei gredu yn hyn? Taerant yn ngwyneb hyn nad oedd Crist yn gwybod ei sefyllfa ei Hun! Mynant ei fod yn drydedd ran o'r Duwdod—ei fod yn debyg i un o feibion Jupiter!! Dyna baganiaeth bur, ddigymmysg.

Mae caniatau dau dduw yn wrthun, ond tybio un duw yn gweddio ar ran o hono ei hun sydd fwy gwrthun fyth! Cawn Iesu Grist yn fynych yn gweddïo ar ei Dad. Ymddengys ei ffydd fel dyn Duw—dyn yn ein dysgu a'n gosod ar yr iawn ffordd. Peth rhyfedd na fuasai rhai o'r mynachod wedi ein dysgu y byddai y Tad, ar rai adegau, yn gweddio ar y Mab!! Mor gysson yw Crist ag ef ei hun pan yn gweddio ar ei Dad—y Duw a greodd nefoedd a daear—a thrwy hyny yn profi nad yw efe ei hun yn dduw.

Yn Matt. viii. 10, ceir hanes y canwriad yn dyfod i ymofyn iechyd i'w fab. Addawodd Iesu dalu ymweliad â'r claf, ond ni fynai y canwriad hyny, am nad oedd yn ystyried ei dy yn deilwng i'w dderbyn. Rhyfeddodd yr Iesu. Os oedd yr Iesu yn Dduw, paham yr oedd yn rhaid iddo ryfeddu? Os yn hollwybodol, pa angenrheidrwydd oedd iddo wrando ar y dyn er mwyn gwybod graddau ei ffydd? Ceir geiriau felly yn aml: "Pan wybu yr Iesu." Gwyr yr Hollwybodol y diwedd fel y dechreuad.

Yn y bennod olaf o Efengyl Marc cawn a ganlyn:—"Y neb a gredo ac a fedyddier a fydd cadwedig, eithr y neb ni chredo a gondemnir." "A'r arwyddion hyn a ganlynant y rhai a gredant: yn fy enw I y bwriant allan gythreuliaid; seirff a godant ymaith; ac os yfant ddim marwol, ni wna iddynt ddim niwaid; ar y cleifion y rhoddant eu dwylaw, a hwy fyddant iach." A oes i gredinwyr yn awr dafodau newyddion? A all un Cristion yn ddigosp gymmeryd i fyny nadredd gwenwynig? A ddichon i ddyn godi y neidr drystiog heb dderbyn brathiad marwol? Pwy all yfed dim gwenwyn marwol? Yn mha le y ceir sant a all iachau y claf drwy osod ei ddwylaw arno? A ydyw dwylaw y Cristionogion yn feddiannol ar rinwedd a all beru i glefydau ffoi? Onid yw gwenwyn yn cael yr un effaith ar yr hwn sydd yn credu ag ar yr annghredadyn? Ydyw. Erbyn hyn mae yn amlwg nad oes un credadyn, neu nad yw rhagddywediad Crist yn wirionedd. Ynfydrwydd yw ceisio dangos mai i'r Efengylwyr yn unig yr oedd yr addewid. Dengys yr adnod olaf yn Efengyl Matthew y byddai Crist "gyda hwy hyd ddiwedd y byd."

Angen mawr y dyddiau hyn yw myfyrio y Beibl. Nid ei ddarllen yn unig ddylid, ond ei chwilio, a dwyn y naill ran ar gyfer y llall. Gwelais lyfryn a elwir *Cyssondeb y Pedair Efengyl;* ond byddai llyfr yn dangos eu hannghyssondeb yn llawer mwy gwerthfawr i'r Cymro uniaith, a chredaf y cai dderbyniad, ac y gwnai fwy o les i'r genedl

nâ'r miloedd esponiadau sydd wedi eu hysgrifenu ar draul miloedd o bunnau o arian y wlad. Pwy anturia ar lyfryn bychan swllt yn cynnwys yr annghyssonderau. Nis gall yr hanes sydd genym am Iesu Grist fod yn gywir. Cyfiawnder a chariad—brawdgarwch—yw'r athrawiaeth a wnawd yn eglur ganddo ef. Gadewch i ni fod yn onest; rhodder i ni reswm, cyfiawnder, a brawdgarwch, a buan y ceid gwedd newydd ar gymdeithas ac ar y byd. Nid yw yr ychydig adnodau hynod uchod y filfed ran o'r annghyssonderau a geir gan y mynachod—dynion cyflogedig eglwys baganaidd Rhufain; ac er gofid i filoedd, yr un bron yw athrawiaethau Protestaniaid ar derfyn y pedwerydd canrif ar bymtheg! Buan y delo gwybodaeth, rheswm, cyfiawnder, a brawdgarwch i deyrnasu.

GOGLEDDWR.

DYFERYNAU ADGOF

Ar ol Margaret Gwen, anwyl blentyn Lewis ac Elen Bowen, Tanygraig, Trebannos, yr hon a hunodd yn angeu Ionawr 13, 1896, yn flwydd a phedwar mis oed.

Ti, blentyn bychan glân dy wawr,
  Cei roesaw calon yn y nef
  Gan Iesu Grist; addawodd ef
Wir hedd i fychain blant y llawr.

Nid mwy yr wyt yn bod mewn byd,
  Dan reoleiddiwch dynol gnawd;
  Ond ti a oresgynaist wawd
A dirmyg o'th foreuol gryd.

Mae'th babell briddlyd yn y glyn,
  Yr hon a wisgaist am fer oes,
  A'th yspryd gyda'r Hwn a'i rhoes;
Gwnawn fawr o'r wers sy'n dod o hyn.

Byth mwy ti fyddi'n blentyn iach;
  Ti fuost yn llwyddiannus iawn;
  Dy weled rywbryd etto gawn;
Yn awr, ffarwel i ti'r un fach!

Trebannos. BEN DAVIES.

Y PHOTOGRAFFYDDIAETH NEWYDD.

Nid oes ddiwedd ar ryfeddodau'r bydysawd, ac ni fydd diwedd, dybiwn, ar ddarganfyddiadau dyn. O ryfedd, fod neb erioed wedi son am anallu dyn! Pwy a ddichon ddychymygu beth a fydd darganfyddiadau y ganrif nesaf? Y mae cyn hawdded ag a fyddai i ddyn o'r ganrif ddiweddaf broffwydo am ddarganfyddiadau y ganrif bresennol. Ni wyddom ni rywbeth erbyn hyn am y maesydd newyddion sydd wedi eu darganfod yn ystod y bedwaredd-ganrif-ar bymtheg; ond o'r oll, gallwn feddwl nad oes yr un yn fwy rhyfedd na'r diweddaf. Pan gafodd Benjamin Franklin (1706—1790) allan trwy offerynoliaeth barcutan papyr, mai yr un a'r unrhyw—beth gawn ni ddweyd—sylwedd neu ddefnydd—oedd yr hylif gwefreiddiol neu drydanol (*electric fluid*), a'r peth hwnw sydd yn cynnyrchu'r fellden, nis gallai lai nag ymlawenhau, a gwneuthur achos ei lawenydd yn hyspys; yr hyn a barodd i rywun ofyn yn wawdus, "Beth am hyny?" "Ni wn i ddim beth," meddai Franklin, "ond mi wn hyn, fy mod wedi cael allan rywbeth newydd, rhyw ddeddf newydd. Ni wn i ddim beth fydd canlyniad y darganfyddiad, ond yr wyf yn falch fy mod wedi cael allan un ffaith newydd yn natur." Gwyddom ni erbyn heddyw y fath faes eang a gwerthfawr gafodd ei agor i'r byd drwy help barcutan papyr Dr. Franklin.

Gallwn feddwl fod deddf newydd wedi ei dwyn i'r golwg etto, yr hon a fydd yn debyg o esgor ar ddarganfyddiadau nas gallwn ni braidd ddychymygu eu natur na'u dylanwad. Gwnaethpwyd y darganfyddiad yn ddamweiniol gan foneddwr o'r Almaen, o'r enw Proffeswr Rontgen. Celfyddyd newydd mewn cymhariaeth yw photograffyddiaeth. Trwyddi yr ydym yn defnyddio goleuni'r haul i dynu lluniau ein cyfeillion, &c. Trwyddi yr ydys eisoes wedi tynu photo o sêr sydd yn anweledig i lygad o gnawd; a thrwyddi fe ddysgwylir yn awr gan rai y gellir tynu photo o ysprydoedd rhai wedi ymado a'r fuchedd bresennol. Tra'r oedd y Proffeswr yn gwneuthur arbrawfiadau yn y gelfyddyd hono, sylwodd ar rywbeth anarferol yn y cysgodau ar y darlun—llinell ddu ar y papyr. Wrth geisio cael allan esponiad o'r llinell ddu, gwnaeth ei ddarganfyddiad, yr hwn sydd wedi creu syndod nid bychan yn y byd gwyddonol. Gwyddid yn barod y gwnai'r tynfaen (*magnet*) actio ar gwmpawd morwr trwy blencyn modfedd o drwch, neu trwy lyfr o fil o dudalenau, fel pe byddai dim yn rhwystr. Gwyddys hefyd fod yr hylif trydanol yn actio yn llawn mor rhyfeddol; ac fe wyr pawb nad yw gwydr y ffenestr yn un rhwystr i'r goleuni fyned trwyddo. Drachefn yr ydym wedi gweled darn o wydr (*prism*) yn dosranu'r goleuni i saith o liwiau, yn debyg fel mae'r gwlaw yn dal pelydrau'r haul ac yn rhoddi i ni liwiau'r enfys—fioled, indigo, glas, gwyrdd, melyn, oreins, coch. Mae yn ffaith sydd yn dyfod yn fwy amlwg bob dydd nad oes dim yn bod y gwyddom bobpeth am dano. Fe wyddys llawer am ddeddfau goleuni, ond nid oes neb yn breuddwydio

ei fod yn gwybod y cwbl. Y mae gan yr amlafrif o ddynion lygaid i weled y saith lliw a enwyd uchod, tra y mae ychydig o bob cant o ddynion nas gallant eu gweled i gyd. A phaham y mae hyny? byddai yn ddyddorol gwybod. Drachefn y mae, wrth bob tebyg, rai pelydrau neu liwiau—beth gawn ni eu galw—nad oes un llygad dyn all eu gweled; a thrachefn etto, os gwir ddywedir, y mae gan ambell un lygaid sydd yn gallu canfod gwrthddrychau wedi eu cau i fyny mewn *envelope*.

Nis gallwn yn y llinellau hyn ddatgan natur darganfyddiad Proffeswr Rontgen; ond yn rhywfodd y mae yn gallu tynu gwawllun neu photograff o wrthddrych mewn ffordd na wnaethpwyd erioed o'r blaen. Yn ol yr hen gynllun, darlun a roddid i ni o olwg allanol y gwrthddrych. Yn ol y cynllun newydd y mae'r gwawllunydd yn rhoddi i ni ddarlun o ranau mewnol y gwrthddrych. Dybyna hyny ar fod y ddyfais newydd yn galluogi pelydrau'r goleuni i actio mewn ffordd newydd; neu feallai mai gallu defnyddio'r pelydrau yr ydys mewn ffordd newydd. Yn y wyddor drydanol dosparthir defnyddiau i'r hyn a elwir yn *conductors* a *non-conductors*, hyny yw, defnyddiau yn trosglwyddo a rhai yn peidio trosglwyddo. Gyda golwg ar y "goleu" gelwir defnyddiau yn *transparent* a *non-transparent*; hyny yw, rhai yn caniatau i'r pelydrau fyned trwyddynt a rhai yn peidio. Wrth dynu darlun o gorff dyn yn ol y wyddor newydd, pasia'r pelydrau trwy'r cnawd a rhoddir i ni ddarlun o'r esgyrn yn unig. Yr ydys eisoes wedi gweled yn y darganfyddiad hwn un defnydd pwysig, sef cael allan sefyllfa bwleten yn y corff. Dyry'r photo ddarlun tywyll o'r hyn y mae'r pelydrau goleuni yn methu myned trwyddo. Ceir felly leoliad cywir y fwleten, a galluogir y meddyg i actio yn well arno. Yr ydym wedi gweled photo o gynnwys poced o galico—sef corkscrew, coin, allwedd, &c. Gallwn feddwl fod yma faes newydd ac eang i'r meddyg weithio ynddo er budd i ddynoliaeth—a chychwyniad, feddyliwn, i ddarganfyddiadau mawrion a gwerthfawr.

T.C.U.

NODYNAU GWASGAROG.

PENTRE, CWM RHONDDA.

Sul a Llun, Chwef. 2 a'r 3, cynnaliwyd cyfarfodydd agoriadol yn y lle uchod, pryd y gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidogion a ganlyn:—D. Evans, Cribin; R. C. Jones, Llanbedr; D. J. Williams, Merthyr (yn Saesneg); L. Williams, Rhydygwin; T. Arthur Thomas, Llandyssul; Jenkyn Thomas, Aberdar (yn Saesneg); J. Hathren Davies, Cefncoed; R. J. Jones, M.A., Aberdar; W. J. Phillips, Nottage (yn Saesneg); J. Davies, Alltplaca, yn

nghyd a J. Harwood, B.A., Llundain, cynnrychiolydd y Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor. Awd trwy y gwasanaeth defosiynol foreu Sul gan Mr. Thomas Edwards, Blaenllechau, yr hwn sydd wedi dychwelyd at yr Undodiaid oddiwrth y Wesleaid, a'r hwn, gydag un arall, sef Mr. James Davies, Tylorstown, sydd yn cyrchu bob Sul,—ïe, ac ar bob math o dywydd—dros fynydd noethlwm Pen-Rhys i'r gwasanaeth yn y Pentre. Mynydd yw hwn, cofier, nad oes ynddo ddiddosrwydd "gwasgod brwynen." Beth yw y rheswm, tybed, nad yw yr Undodiaid selog a phybyr ereill (mewn gair ond nid mewn gweithred) o'r un cwm yn dyfod atom unwaith yn mhob chwe' mis? Eithr chwareu teg, bu rhai o honynt yn ddigon dewr i ddangos eu *colours* yn ystod y cyrddau agoriadol!! Dynion yn debyg i Mr. Edwards a Mr. Davies yw y polion sydd yn cadw gwifrau yr enwad i fyny. Y mae'r cyntaf wedi pregethu yn fy absennoldeb droion, ac nid oes nemawr Sul yn pasio heibio nad yw yn dechreu y cwrdd; a'i glywed yn dechreu y cwrdd sydd bregeth. Yr oedd Dr. Griffiths, Pontypridd, yn bresennol hefyd, a thraddododd anerchiad hyawdl ar ddiwedd y cyrddau nos Lun. Wel, i fod yn fyr, cafwyd cyrddau bendigedig. Yr oedd y capel prydferth yn orlawn, ac ugeiniau o bobl, yn enwedig dydd Sul, yn methu dyfod i fewn. Ni chlywais gystal pregethau, a'u cymmeryd gyda'u gilydd, erioed yn fy mywyd; ac nid fy nywediad I fy hun ydyw hyn, ond dywediad pawb. Yr hyn a'm synodd fwyaf ydoedd gweled yr un gwynebau dyeithr yn mhob cyfarfod—ïe, yn y chwech. Yr oedd pob un yn gwrandaw a'i anadl megys yn ei ddwrn, nes ysprydoli gwrhydri newydd yn mynwes pob un o'r pregethwyr, o'r ieuengaf hyd at yr yr henaf o honynt. Os oedd *missing link* yn y cyfarfodydd, yr oedd hyny i'wbriodoli i absennoldeb Mr. James, Llandyssul. Yr oedd y canu, dan arweiniad Mr. D. M. Thomas, Treorci, yn ardderchog, a'r *solos* a ddatganwyd gan yr ieuanc ond enwog gantores, Miss Davies, Treorci, yn gwefreiddio pawb. Cyfeiliwyd ar yr organ gan y cerddor a'r arweinydd medrus, Mr. George Thomas, A.C., Treorci. Dywedwch chwi a fynoch, y mae Undodiaid y Pentre yn ystod y misoedd diweddar wedi gwneyd "melin ac eglwys" o gynnydd, a pharhau i gynnyddu y maent. Y mae lluaws o bersonau a elwir yn *free-thinkers*, yn cymmeryd dyddordeb mawr yn yr achos, ac er nad ydynt hyd etto wedi ymaelodi, y maent yn cysson fynychu y gwasanaeth bob Sul. Cawsom dri aelod newydd ychydig Suliau yn ol, a thri arall Sul cyn y diweddaf, ac y mae Mr. Lewis Lewis, Ystrad Road, cefnder y Parch. L. Williams, Rhydygwin—un o wyr ieuainc mwyaf talentog yr Ystrad —yn dyfod atom yn awr yn gysson. Nis gallwn lai na theimlo yn browd o un fel efe. Y mae dyn ieuanc mor alluog yn rhoddi *dignity* i'r achos. Y mae Mr. Maelor Evans, awdwr, cyfieithwr, a *commissioner of oaths*, er ei holl amrywiol ddyledswyddau, yn dod â chalon hael a gwyneb siriol i bob gwasanaeth. Efe a Mr. Edwards, Blaenllechau, oeddynt yn gwasanaethu yn fy lle nos Sul diweddaf, pan oeddwn yn pregethu yn Nghwm Clydach. Yr wyf yn dechreu

teimlo yn *jealous* tuag at Mr. Evans, oblegyd yr wyf yn clywed ei fod yn bregethwr llawer mwy derbyniol gan fy mhobl na myfi fy hun. Ei destyn y Sul diweddaf oedd "Y Wir Eglwys." Y mae, rywsut, yn gallu bod mor syml, gwlithog, a barddonol—rhinwedd nad wyf fi etto wedi ei feddiannu—nes gwneyd y cysgwr penaf yn effro. Y mae arawd *(oratory)* wedi ei pherffeithio ynddo ef—"chiselled into perfect form, polished to the nail." Bydd naill ai yn pregethu neu areithio bob yn ail Sul o hyn allan yn Nghapel y Pentre, pan y byddaf fi yn Nghlydach. Ei destyn Sul wythnos i'r nesaf, yr wyf yn credu, fydd "Erlidigaeth Grefyddol." Bydd yn darlithio nos Sul nesaf yn Nghlydach ar "Calfin a Servetus." Y mae hefyd wedi addaw traddodi un o'r gyfres ddarlithiau yn y Pentre, pryd y dysgwylir i rai o'n gweinidogion gymmeryd rhan. Beth yw y rheswm fod dychweliadur at Undodiaeth yn fwy brwd a gweithgar nag Undodwr ei hun? Y mae genym lawer enghraifft o hyn yn y Pentre, ond y mae genym rai Undodiaid ag iddynt asgwrn cefn, a gwroldeb moesol yn ogystal. Yr oedd y gynnulleidfa yn rhifo yn mhell dros gant Sul wythnos i'r diweddaf—y Sul cyntaf wedi'r cyrddau agoriadol—a dywedwyd wrthyf fod tua'r un nifer yn bresennol nos Sul diweddaf pan fu y ddau frawd a nodwyd yn gwasanaethu. Nid oes angen llygad proffwyd i ragweled y llwyddiant sydd yn aros ymdrechion Undodiaid ffyddlon y Pentre.

Dyna, Mr. Gol., yn frysiog, dipyn o hanes y cyrddau a'r achos Undodaidd yn Nghwm poblog y Rhondda. Sicr wyf y bydd holl ddarllenwyr YR YMOFYNYDD yn falch i glywed am ein llwyddiant.

D.I.D.

AT OLYGYDD "YR YMOFYNYDD."

BARCHUS SYR,

Yr oedd yn dda genyf weled yn eich rhifyn diweddaf ddarlun o gapel yr Hen-dy-Cwrdd, Cefn, a deall eich bod yn dymuno cael darluniau o'n capeli ereill yn Nghymru; ond caniatewch i mi awgrymu y dymunoldeb o gael, nid yn unig ddarluniau ac hanesion o'r capeli, ond hefyd fywgraffiadau o'r hen weinidogion a fuont yn gweinidogaethu ynddynt.

Yr eiddoch yn ffyddlon,

Ornan Mansions, Hampstead. D. D. JEREMY.

LLUNDAIN.

ANWYL OLYGYDD,

Diolch i chwi am eich geiriau caredig yn eich rhifyn diweddaf. A fyddwch chwi gystal a chaniatau congl fechan i mi ofyn nawdd eich darllenwyr dros y mudiad yn Llundain? Yr ydym wedi cymmeryd ystafell yn Wellington Hall, Upper Street, N., a chan nad oes ond ychydig o honom, y mae y treuliau yn barod yn

gwasgu arnom. Yr ydym eisieu *harmonium* i gynnorthwyo y canu, ac os oes brawd neu chwaer yn yr Hen Wlad yn teimlo dyddordeb yn ein gwaith, ac yn alluog i'n cynnorthwyo, byddem yn ddiolchgar dros ben iddynt am bob help allent ei roddi.

Yr eiddoch yn gywir,

125, *Caistor Park Road,*
Portway, West Ham, London, E.

DAN JONES, Ysgrifenydd.

O'R BRIF DDINAS.

Cymmerwyd y canlynol o'r *London Kelt* am Chwefror y 1af:—"Yn ei anerchiad ar y *Forward Movement* yn nghyfarfod yr Undodiaid Cymreig, City Road, nos Sul diweddaf, daliai Mr. Delta Evans fod y cyhuddiadau a wneir yn fynych yn erbyn yr Undodiaid, o anmharchu y Beibl, o wrthod Iesu Grist, ac hyd y nod o wadu bodolaeth Duw, yn hollol ddisail. 'Nid gwrthod y Beibl yr ydym,' meddai, 'ond gwrthod y deongliadau a'r esponiadau roddir arno yn gyffredin gan haerdybwyr 'uniawngred'.' Nid oedd y ffaith eu bod yn gwrthod y traddodiadau ofergoelus sydd wedi casglu o amgylch Iesu o Nazareth ar un cyfrif yn golygu eu bod yn gwrthod Iesu ei hunan. Nid oedd ganddynt ddim i'w wneyd â Christ y credoau, ond derbynient Iesu yr Efengylau fel eu hathraw a'u harweinydd. Yr oedd 'credu' yr Iesu, gyda hwy, yn golygu rhywbeth annhraethol uwch a mwy sylweddol na chydsynio a thraddodiad. Ac os oeddynt yn gwadu cywirdeb a phurdeb y desgrifiad a geir, fel rheol, o Dduw gan y dduwinyddiaeth bobl-logaidd, nid oeddynt o angenrheidrwydd yn gwadu Duw. Hawliai yn mhellach fod yr Undodiaid yn tra-rhagori ar yr enwadau 'uniawngred' yn eu parch at y Beibl, yn gymmaint a'u bod yn gwneyd pobpeth yn eu gallu i'w ddyrchafu yn meddyliau y bobl—i'w cael i'w ddarllen, a'i ddeall, ac i dderbyn ei addysgiaeth foesol a chrefyddol. Nid 'parchu' y Beibl ydyw ei addoli fel llyfr anffaeledig, a'i ddeongli mewn dull neillduol, ac yna hawlio mai y cyfryw ydyw yr unig ddeongliad cywir.—J." Y mae y cyfeillion yn Llundain wedi cymmeryd ystafell yn y Wellington Hall, Upper Street, lle y cynnelir yr ysgol a'r gwasanaeth yn y dyfodol.

"BEIBL I BAWB O BOBL Y BYD."

Y mae llawer o ysgrifenu o bryd i'w gilydd yn nghylch awduraeth y llinell uchod. Fe'i ceir gyntaf, wrth bob tebyg, mewn cyfres o englynion "I'r Beibl" gan Robert Williams, o'r Pandy, y rhai a welir yn *Cymru Fydd* am Ionawr, 1891. Dyma un:

"Llyfr doeth yn gyfoeth i gyd—wych lwyddiant
A chyfoeth yr yspryd,
A gair Duw nef yw hefyd—
Beibl i bawb o bobl y byd."

Dyma ei feddargraff yn mynwent Llanfor, ger y Bala :

"Yma mae yn gorwedd gorff Robert Williams, Pandy Isa, a gladdwyd Medi 1, 1815, oed 72; hefyd, gorff Margaret Williams, gwraig Robert Williams, a gladdwyd Tachwedd 29, 1818, oed 76."

YCHYDIG O HANES "YR YMOFYNYDD."

(Gweler "Ymofynydd" Ebrill, 1895, *tud.* 93.)

Y dydd o'r blaen daeth llyfr i'm llaw yn dwyn yr enw, "Llenyddiaeth fy Ngwlad," gan Gwenallt, sef T. M. Jones, Penmachno. Wrth gwrs, y peth cyntaf a wnes oedd edrych a oedd rhywfaint o sylw yn cael ei roi i'n llenyddiaeth ni fel enwad, a chefais fod yr hanes canlynol yn cael ei roi o'r YMOFYNYDD :—

"*Yr Ymofynydd*, 1847.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn y flwyddyn 1857, gan y Parch. John Jones, Penybont, yr hwn a fu yn ei olygu gyntaf, ac ar ei ol ef ymgymmerwyd â'r olygiaeth gan y Parch. J. Jones, M.A., Aberdar, ac argreffid ef gan Mr. J. Howell, Aberdar. Deuai allan yn fisol, a'i bris ydoedd tair ceiniog. Ni pharhaodd yn hir. Amcan ei gychwyniad allan ydoedd er 'gosod gerbron y cyhoedd yr egwyddorion a ddelir allan gan y Bedyddwyr Albanaidd.'"

Cyhoeddwyd y llyfr yn 1893. Amlwg yw nad oedd yr ymchwiliad a wnaeth yr awdwr i hanes YR YMOFYNYDD yn un trwyadl iawn. Mae'r YMOFYNYDD, bellach, wedi bod yn dod allan yn weddol gysson er 1847, ag eithrio ychydig seibiant yn awr ac eilwaith. Er y flwyddyn 1868, pan yr ymgymmerodd y Parch. D. L. Evans a'r olygyddiaeth, mae wedi dod allan yn weddol reolaidd. Dyma gyfeiriad at gyhoeddiad Undodaidd arall:—

"*The Monthly Repository*, neu *Drysorfa Gymmysgedig*, yr hon a gychwynwyd yn y flwyddyn 1795. Golygid y cylchgrawn hwn gan y Parch. Thomas Evans, gweinidog gyda'r Undodiaid yn Aberdar. Chwe' cheiniog ydoedd ei bris, ond ni ddaeth allan ond tri rhifyn."

Mae llawer iawn o lyfrau a thraethodau Undodaidd wedi cael eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd yn ystod y ganrif, ond y mae llawer o conynt, fel mae lle i ofni, wedi myned ar goll. Ai ni fyddai yn bossibl hael ychydig o hanes llenyddiaeth yr enwad gan rywun sydd yn

addas i ymgymmeryd a'r gwaith, megys y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, yr hwn sydd yn gwybod mwy o hanes yr enwad Undodaidd na neb arall sydd yn fyw yn awr, fel y credaf.

A. B.

ARTEITHIO.

Mewn erthygl ddyddorol dan y pennawd uchod yn y *Llenor* am Ionawr, 1896, dywedir :

Oni chashawn yr arteithiwr ? Ac etto, onid oes tuedd i erlid ac i arteithio yn ein hoes ni, yn ein calonau ni ? Os na wnawn niwed fel cynt, hwyrach y gwrthodwn wneyd da i ddyn, am nad yw ei gredo, neu liw ei gredo, wrth ein bodd. "Beth ydyw'ch crefydd ?" dyna gwestiwn yr erlidiwr i'r ffarmwr ofyno am ffarm, i was ofyno am swydd, i ymgeisydd am aelodaeth o Gynghor neu Senedd. I ba sect bynag y perthynwn—Pabyddion, Eglwyswyr, Annibynwyr, Bedyddwyr, Methodistiaid, Undodwyr—y mae ein tadau wedi erlid digon i wneyd i ni gashau yr enw roddasant arnom. Crefydd wedi llwyddo, ac wedi dechreu llywodraethu—mor dueddol yw i erlid fel ei herlidiwyd hi. Nid oes genym le i gyhuddo ein gilydd ; ond y mae genym oll le i weddïo ac i weithio, os yw brawdgarwch i ffynu."

Y GYMRAEG.

IAITH barddoniaeth beirdd anian,—iaith emog,
Iaith i mi i'w hyngan ;
Iaith oreu'r byd, iaith lydan ;
Goludog yw iaith Gwlad y Gân.

Llanybyther. D. O. JENKINS.

UNDODIAID AC ADFERIADWYR.

Y mae rhywrai neu rywun wedi dywedyd mai y gwahaniaeth rhwng Undodiaid ac Adferiadwyr neu *Universalists* (y rhai ydynt mor lluosog yn yr Unol Daleithau) yw, fod yr Adferiadwyr yn credu fod Duw yn rhy dda i ddamnio dynion yn dragwyddol, tra mae'r Undodiaid yn credu fod dyn yn rhy dda i gael ei ddamnio yn dragwyddol. Nes i'r gwir, fe allai, yw dywedyd fod yr Undodiaid yn bleidiol i bob un o'r daliadau hyn. Tardda'r ddau ddaliad oddiar wrthryfel y galon ddynol yn erbyn addysg yr eglwysi yn nghylch Duw a dyn. Daliant y dylai Duw fod o leiaf mor dda, mor dyner, mor drugarog, a dyn cyffredin.

YR EGLWYS.

Nid yw safle a dylanwad yr Eglwys yn awr yr hyn oedd. Fe addef pawb hyn. Arferai dynion gredu fod rhodd iachawdwriaeth

yn nwylaw'r Eglwys. A gredir hyny heddyw? Dichon y gwneir gan rai, ond yn sicr nid gan bawb. Credant fod yr Eglwys yn beth da, ei bod yn sefyll o blaid syniadau neu feddylddrychau uchel ac ardderchog, ac fod ei dylanwad mewn cymdeithas yn ddyrchafol. Crèd llawer fod athrawiaethau'r Eglwys mewn gwirionedd yn gorfforiad o'r unig gynllun iachawdwriaeth dyn sydd o darddiad Dwyfol; ond ychydig a gredant heddyw fel cynt ei bod yn anhebgorol angenrheidiol er iachawdwriaeth i fod yn aelod o ryw Eglwys neillduol er mwyn boddio Duw a gwasanaethu dyn. Gall hyny fod yn dda, gall fod yn gynnorthwyol, ond nid yw yn eu golwg yn anhebgorol angenrheidiol.

Marwgofion.

Rhagfyr 24, yn 4, Brynbedw Road, Tylor's Town, Cwm Rhondda, Mary, gwraig Mr John Griffiths, Colliery Manager, yn 59 oed. Merch oedd Mrs Griffiths i Edward Llewelyn, o'r Dyffryn Arms, Cwmbach, yr hwn a gollodd ei fywyd fwy nâ deugain mlynedd yn ol yn nhanchwa y Waunwyllt, os ydym yn cofio yn iawn. Yr oedd Mrs. Griffiths yn perthyn i un o hen deuluoedd parchusaf y plwyf, y rhai a fuont, lawer o honynt am flynyddoedd, yn dal cyssylltiad â'r Hen Dy Cwrdd. Y mae Mrs. G. wedi gadael ar ei hol briod ac amryw blant, oll wedi tyfu i fyny. Dymunwn iddo ef a hwythau gofion melus a hir am yr ymadawedig a nawdd Duw a'i dangnef weddill eu taith yn y byd.

Rhagfyr 26, yn 3, Mountpleasant St., Aberdar, Bronwen, merch Mr. Thomas Hopkins, yn 11 oed. Cafodd y chwaer fach hon gystudd hir a thrwm am hir amser, ond erbyn heddyw y mae wedi ei symmud i le nad oes neb yn dywedyd, "Claf ydwyf," lle nad oes na thrallod na gofid na phrofedigaeth na phechod na dim o'r cyfryw. Heddwch mwy, Broni fach.

Ionawr 25, yn 69 mlwydd oed, John Thomas, Penlanganol, Llanwenog. Y dydd Mawrth canlynol, claddwyd yn Mynwent Capelbryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur i glywedigaeth tyrfa fawr gan y gweinidog. Daeth angel marwolaeth i symmud yr ymadawedig yn ei gwsg. Rhwng tri a phedwar o'r gloch yn y boreu, yr oedd wedi bod yn ymddyddan â'i wraig yn ei iechyd arferol; ar ol hyny darfu i'r ddau gysgu drachefn am ychydig, a phan ddihunodd hi tua chwech yr oedd efe wedi dianc i'r byd anadnabyddus Hen gyfaill dyddan a diniwed oedd John Thomas a chofir yn gynhes am amser rai o'i ffraethebau. Boed i'r weddw a'r tri phlentyn fodd i alaru'n gymmedrol ar ei ol. "Trefna dy dŷ, canys marw fyddi."

Ionawr 27, yn 88 mlwydd oed, Griffith Jenkins, Tan rallt, Cwrtnewydd Claddwyd y Gwener canlynol yn Mynwent Capelbryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog. Yr oedd yr ymadawedig yn un o breswylwyr hynaf a mwyaf nodedig yr ardal. Perthynai iddo lawer o annybyniaeth meddwl, ac yr oedd yn dra medrus yn ei alwedigaeth fel gof. Yn ei oes faith bu'n dra defnyddiol fel meddyg ceffylau. Ymrysonodd lawer â barddoniaeth, cerddoriaeth, a duwinyddiaeth. Yr oedd fel cymmydog yn barod i wneyd cymmwynas pa bryd bynag y byddai galw arno. Bydd y pentref y bu cyhyd yn preswylio ynddo yn edrych yn wâg iawn ar ei ol, a bydd llawer o'i gyfeillion yn mhell yn teimlo'n chwith iawn am y newydd o'i symmudiad. Nerth a gaffo'i blant i ymdawelu dan yr oruchwyliaeth.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.